**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/FM/0015/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

16 Ionawr 2026

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu fy mod wedi cynnal a chadeirio 44ain cyfarfod y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a gynhaliwyd ym Mro Morgannwg ar 4 a 5 Rhagfyr.

Hoffwn dynnu eich sylw at fy natganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd heddiw, ac i'r cyd-hysbysiad sy'n crynhoi canlyniadau'r uwchgynhadledd, sydd ar gael yma.

Thema'r uwchgynhadledd hon oedd 'Dyfodol Creadigol: Datgloi potensial y diwydiannau creadigol ar draws yr ynysoedd hyn’. O ystyried thema'r uwchgynhadledd, roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol hefyd yn bresennol yn yr uwchgynhadledd.

Yn ystod yr uwchgynhadledd, cefais gyfle hefyd i gynnal cyfarfodydd dwyochrog â nifer o arweinwyr o aelod-weinyddiaethau eraill y Cyngor.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.